



Technoleg Iechyd Cymru

Crynodeb o'r Broses Arfarnu

Pwy yw Technoleg Iechyd Cymru?

Sefydliad sy'n gweithio i wella ansawdd gofal yng Nghymru ydym.

Rydym yn gwneud hyn drwy arfarnu technolegau neu fodelau gofal a chymorth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol nad ydynt yn feddyginiaethau.

Ar gyfer iechyd, gallai hyn gynnwys pethau fel:

- dyfeisiau meddygol
- diagnosteg
- gweithdrefnau
- ymyriadau gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd

Ar gyfer gofal cymdeithasol, gallai hyn gynnwys pethau fel:

- offer
- gwahanol ffyrdd o gefnogi teuluoedd, plant, oedolion, a'r gweithlu gofal cymdeithasol

Beth yw arfarniad?

Ffordd o adolygu'r dystiolaeth gyhoeddedig ynglŷn â thechnolegau neu fodelau gofal a chymorth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw arfarniad (a elwir hefyd yn asesiad technoleg iechyd). Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth hon i asesu a ydynt yn gweithio'n well, yr un mor dda, neu'n waeth na'r opsiynau eraill sydd ar gael. Mae arfarniad hefyd yn edrych ar y dystiolaeth ar gyfer pethau fel:

- Effeithiau digroeso neu adweithiau drwg
- Effaith ar ansawdd bywyd
- Costau
- Rhwyddineb defnydd

Gall y wybodaeth hon ein helpu i benderfynu sut y dylid defnyddio'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth.

Yn Technoleg Iechyd Cymru rydym yn chwilio am dechnolegau neu fodelau gofal a chymorth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n debygol o gael effaith ar bobl yng Nghymru. Yna byddwn yn eu harfarnu ac yn darparu canllawiau ar sut y dylid eu defnyddio yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae ein proses arfarnu'n gweithio.

Mae'r broses fel arfer yn dechrau gydag awgrym am bwnc.

Pwy all awgrymu pwnc i'w arfarnu?

Gall unrhyw un awgrymu pwnc i ni ei arfarnu, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd. Un ffordd o wneud hyn yw llenwi ffurflen Awgrymu Pwnc ar ein [gwefan](#). Ffordd arall yw [cysylltu](#) â ni i drafod pwnc posibl. Rydym ni hefyd yn chwilio am bynciau a allai fod o werth i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Beth sy'n digwydd pan fydd pwnc wedi'i awgrymu?

Mae ein staff yn edrych ar awgrym pwnc newydd ac yn penderfynu a allai fod yn addas ar gyfer arfarniad.

Gallai pwnc fod yn addas i'w arfarnu os yw'n dechnoleg neu'n fodel gofal a chymorth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol nad yw'n feddyginiaeth. Mae angen tystiolaeth gyhoeddedig fel y gallwn ddangos ei fod yn debygol o gael effaith ar gleifion, eu gofalwyr, neu bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth. Dylai pethau megis dyfeisiau a meddalwedd hefyd fodloni unrhyw reoliadau cyfreithiol perthnasol i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn gweithio yn ôl y bwriad.

Os nad yw pwnc yn addas i ni ei arfarnu, gall ein Gwasanaeth Cyngor Gwyddonol roi gwybodaeth ddefnyddiol neu help gyda'r camau nesaf. Felly, os nad yw pwnc yn addas i'w arfarnu efallai y bydd ffyrdd eraill o'i ystyried ar gyfer ei ddefnyddio yng Nghymru.

Os yw'r pwnc yn addas i'w arfarnu ar y cam hwn, y cam nesaf yw ein bod yn ysgrifennu Adroddiad Archwilio Pwnc.

Beth yw Adroddiad Archwilio Pwnc?

Crynodeb o bwnc a'r dystiolaeth sydd ar gael amdano yw Adroddiad Archwilio Pwnc. Pan fyddwn yn ysgrifennu'r adroddiad, ein nod yw:

- Darganfod faint o dystiolaeth sydd am y pwnc
- Chwilio am unrhyw fylchau yn y dystiolaeth neu bethau yr ydym yn ansicr yn eu cylch
- Dangos a fyddai'r pwnc yn iawn i ni ei arfarnu ymhellach ac o bosibl cynhyrchu canllaw

Gallai'r Adroddiad Archwilio Pwnc hefyd ein helpu i benderfynu pa bynciau sydd â'r flaenoriaeth uchaf. I wneud hyn rydym yn meddwl am y ffyrdd y gallai'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth:

- Helpu cleifion a lleihau niwed
- Effeithio ar faint o arian sy'n cael ei wario neu ei arbed
- Cael effaith ar sut mae'r cyflwr yn effeithio ar bobl, a faint o bobl y gellid eu helpu
- Diwallu angen ar gyfer cleifion a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwneud iechyd neu ofal cymdeithasol yn decach

Rydym yn anfon drafft o'r Adroddiad Archwilio Pwnc at y person a awgrymodd y pwnc i gael ei sylwadau arno.

Pan fyddwn wedi penderfynu ar y camau nesaf ar gyfer pwnc, byddwn yn e-bostio'r person a'i awgrymodd i roi gwybod iddynt am y penderfyniad. Bydd hefyd yn cael ei bostio ar ein [gwefan](#).

Os byddwn yn penderfynu bod technoleg neu fodel gofal a chymorth yn addas ar gyfer arfarniad yn ystod y cam hwn, y cam nesaf yw ysgrifennu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth.

Beth yw Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth?

Mae Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth yn grynodedb o:

- Sut beth yw gofal i bobl â'r cyflwr yng Nghymru a'r DU, a sut y gellid ei wella
- Sut mae'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth yn ceisio gwella iechyd pobl â'r cyflwr, neu wella'r gofal a gânt
- Pa dystiolaeth sydd bod y dechnoleg neu'r model gofal a chymorth a arfarnwyd yn gweithio
- Beth fyddai'r costau neu'r arbedion pe bai'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth yn cael ei ddefnyddio yn lle gofal safonol ac a yw'n debygol o gynnig gwerth am arian
- Pa wybodaeth y mae'r cyhoedd, cleifion, gofalwyr, a phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth wedi'i rhoi i ni am y pwnc
- Unrhyw beth arall y byddai angen edrych arno pe bai'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru

Rydym yn gofyn i gleifion, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'r cyhoedd gymryd rhan pan fyddwn yn ysgrifennu'r Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth. Mae'r Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yn penderfynu sut y dylai cleifion, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'r cyhoedd gael eu cynnwys ym mhob pwnc, a gallai hyn gynnwys:

- cyflwyniadau gan gleifion, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl (drwy sefydliad cynrychioliadol)
- holiaduron neu arolygon (drwy sefydliad sy'n cynrychioli cleifion, gofalwyr, neu bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth)
- grwpiau ffocws (drwy sefydliad sy'n cynrychioli cleifion, gofalwyr, neu bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth)
- chwiliadau llenyddiaeth sy'n chwilio'n benodol am dystiolaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd

Pan fyddwn wedi ysgrifennu'r Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, bydd ein Grŵp Asesu yn ei ddarllen ac yn penderfynu a ddylid cynhyrchu canllaw. Os felly, bydd y Panel Arfarnu yn defnyddio'r Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth i gynhyrchu canllaw.

Cyhoeddir Adroddiadau Arfarnu Tystiolaeth ar ein [gwefan](#).

Sut mae'r Panel Arfarnu yn cynhyrchu canllaw?

Mewn cyfarfod, mae ein Panel Arfarnu yn edrych ar yr Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, ac yn clywed sylwadau gan arbenigwyr pwnc, cleifion, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'r cyhoedd. Yna mae'r Panel Arfarnu yn ysgrifennu canllaw y mae pob aelod yn cytuno arno.

Mae'r canllaw yn rhoi barn Technoleg Iechyd Cymru ar y dechnoleg neu'r model gofal a chymorth sy'n cael ei arfarnu, gan edrych ar:

- Pa mor dda y mae'n gweithio
- Pa mor ddiogel ydyw
- A yw'n werth da am arian

Bydd y Panel Arfarnu hefyd yn ystyried pa mor ddibynadwy yw'r dystiolaeth:

- A oes llawer o astudiaethau gyda llawer o gyfranogwyr, ac a ydynt i gyd yn dangos yr un peth?
- A yw'r astudiaethau'n golygu y gallwn gymharu'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth â'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd?
- A allwn fod yn hyderus bod unrhyw welliannau mewn canlyniadau yn ganlyniad i'r dechnoleg neu'r model gofal a chymorth, ac nid rhywbeth arall sy'n eu hachosi?
- A yw'r astudiaethau'n edrych ar bobl yng Nghymru, neu mewn poblogaethau sy'n debyg i Gymru a'n system iechyd a gofal cymdeithasol?

Cyhoeddir canllawiau Technoleg Iechyd Cymru ar ein [gwefan](#) ochr yn ochr â'r Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, a chânt eu hanfon at bobl a sefydliadau allweddol ledled Cymru.

Sut mae ein canllawiau'n cael eu defnyddio?

Statws canllawiau Technoleg Iechyd Cymru yw y dylai GIG Cymru, awdurdodau lleol, a darparwyr gofal cymdeithasol fabwysiadu'r canllawiau. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion weithiau pan fydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn edrych ar eu claf neu'r person sy'n defnyddio gofal a chymorth ac yn penderfynu nad yw ein canllaw yn addas ar eu cyfer.

Rydym yn cadw golwg ar sut y mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yng Nghymru yn defnyddio ein canllawiau ar ffurf Archwiliad Mabwysiadu Blynyddol. Efallai y byddwn hefyd yn diweddarau ein canllawiau os bydd pobl y maent yn effeithio arnynt yn gofyn i ni wneud hynny.

Pwy sy'n cymryd rhan a sut?

Mae angen mewnbwn llawer o wahanol bobl ar y broses arfarnu i roi darlun llawn a gwneud yn siŵr bod canllaw yn seiliedig ar wybodaeth sydd mor gywir ag y gall fod.

Mae aelodau Technoleg Iechyd Cymru, gan gynnwys staff, y Grŵp Asesu, Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, a'r Panel Arfarnu i gyd yn helpu i ysgrifennu a gwirio'r arfarniad.

Mae pobl y tu allan i Dechnoleg Iechyd Cymru, gan gynnwys y sawl a awgrymodd y pwnc, y cwmni sy'n gwneud y dechnoleg neu'r model gofal a chymorth, pobl sy'n arbenigwyr yn y pwnc, y cyhoedd, cleifion a'u cynrychiolwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, ac eraill hefyd yn helpu drwy gydol y broses i roi darlun llawn o'r pwnc a'r cyflwr.

I gael rhagor o wybodaeth am bwy yw'r grwpiau hyn a beth maent yn ei wneud, yn ogystal ag edrych yn fanwl ar bob cam o'r broses arfarnu, gweler y canllaw llawn i'r Broses Arfarnu.